Adran Gwaith
a Phensiynau

# Lwfans Gweini, Lwfans Gofalwr a Chredyd Gofalwr

Darllenwch hwn os gwelwch yn dda ac yna rhowch i'ch gofalwr os oes gennych un.

Mae'r daflen hon mewn dwy ran:

- Rhan 1 – i chi
- Rhan 2 – i'ch gofalwr, os oes gennych un. Mae'n rhoi gwybodaeth am Lwfans Gofalwr a Chredyd Gofalwr

## Rhan 1 – i chi

**Gallai eich budd-dal gael ei effeithio os yw rhywun yn hawlio Lwfans Gofalwr am ofalu amdanoch.**

Os yw eich cais am Lwfans Gweini yn llwyddiannus, efallai y cewch swm ychwanegol ar gyfer anabledd difrifol gyda budd-dal sy'n berthnasol i incwm neu Gredyd Pensiwn.

Os telir Lwfans Gofalwr i rywun am ofalu amdanoch, efallai na fyddwch yn gallu cael y swm ychwanegol hwn. Cysylltwch â'r swyddfa sy'n delio â'ch budd-daliadau am fwy o wybodaeth. Ni fydd eich Lwfans Gweini yn cael ei effeithio.

## Rhan 2 – i'ch gofalwr

### Lwfans Gofalwr

Os ydych yn gofalu am rywun am 35 awr neu fwy bob wythnos, efallai y byddwch hefyd yn cael Lwfans Gofalwr. Gallwch gael Lwfans Gofalwr unwaith y byddwn wedi cytuno bod y person yr ydych yn gofalu amdano yn cael dyfarniad Lwfans Gweini. Mae'n rhaid i chi wneud cais Lwfans Gofalwr o fewn 3 mis i'r penderfyniad Lwfans Gweini gael ei wneud neu gallech golli budd-dal.

### Lwfans Gofalwr a budd-daliadau eraill

Gall rhai budd-daliadau, lwfansau neu bensiynau newid faint o Lwfans Gofalwr gallwn dalu. Mae hyn yn golygu os ydych yn cael budd-dal arall, efallai na allwn dalu Lwfans Gofalwr o gwbl, neu dalu llai i chi. Ond efallai y byddwch dal yn gymwys i gael Lwfans Gofalwr hyd yn oed os na allwn ei dalu. Mae hyn yn golygu efallai y byddwch yn cael swm ychwanegol wedi'i dalu gyda Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth sy'n gysylltiedig ag incwm a Lwfans Cymorth, Cymhorthdal Incwm, Credyd Pensiwn neu Fudd-dal Tai.

### Sut i wneud cais am Lwfans Gofalwr neu ddarganfod mwy o wybodaeth

- Ewch i'n gwefan yn **www.gov.uk/cymraeg**
- Ysgrifennwch at DWP, Mail opening site A, Wolverhampton, WV98 1AA.

Credyd Gofalwr

Os na allwch gael Lwfans Gofalwr ac yn gofalu am un neu fwy o bobl anabl am gyfanswm o 20 awr neu fwy’r wythnos, gallwch wneud cais am Gredyd Gofalwr. Mae hwn yn gredyd Yswiriant Gwladol ar gyfer gofalwyr oedran gweithio. Gall eich helpu i fod yn gymwys i gael Pensiwn y Wladwriaeth a budd-daliadau profedigaeth.

Nid oes angen i chi wneud cais am Gredyd Gofalwr os ydych yn derbyn Budd-dal Plant am blentyn o dan 12 oed neu’n cael Lwfans Gofalwr gan fyddwch yn cael credydau Yswiriant Gwladol yn barod.

Gallwch gael gwybod mwy am Gredyd Gofalwr a sut i wneud cais:

- ar-lein yn **www.gov.uk/cymraeg**
- ffôn: **0800 731 0122**
- ffôn testun: **0800 731 0317**

Gallwn anfon y daflen hon i chi mewn fformatau eraill, fel print bras.

Canllaw yn unig yw’r daflen hon ac nid yw’n cwmpasu pob amgylchiad. Rydym wedi gwneud ein gorau i sicrhau bod y wybodaeth yn gywir ar Rhagfyr 2018. Mae’n bosibl y bydd rhywfaint o’r wybodaeth yn newid dros amser.